GAEAF 2024
RHIFYN 30
ubc.cymru

UBC
BUW

# Y Negesydd



Cenhadaeth: Anna-gaplaniaeth

O Sir Benfro i'r UDA, a nôl...

Newid Cyfnod yn Ewrop

*a mwy...*

# CYNNWYS

RHIFYN 30


1 Clawr

2 Gair Golygyddol

3 Cenhadaeth: Anna - Gaplaniaeth

4 Dychwelyd i Gymru

5 Gobaith ar Grwydr

6 Newyddion UBC

7 Newyddion ar draws y Byd

8 Dod i nabod... Gwyn Morgan


*Cynhyrchir Y NEGESYDD dair gwaith y flwyddyn gan Undeb Bedyddwyr Cymru. Serch hynny, ni ddylid cymryd safbwyntiau a fynegir yn y cylchgrawn fel petaent yn cynrychioli barn swyddogol yr Undeb ar unrhyw fater*

# GAIR golygyddol

GAEAF 2024

***Dros fy nhaith bywyd a ffydd, galla i ddweud gydag argyhoeddiad bod yr Arglwydd wedi gweithio trwy bobl o bob oedran a chenhedlaeth i gyfoethogi fy mywyd.***

*O rieni, i gyfoedion, i fam-gu a thad-cu arbennig, i nithod a neiod (a nawr un bach arall ar y ffordd i mi a'm gŵr!), mae'n rhyfeddol meddwl sut mae Duw yn caru defnyddio pobl o bob oedran a sefyllfa i'n tyfu a'n siapio trwy ein bywydau...*



Mae cyfoedion ifanc wedi chwarae rôl holl-bwysig dros y blynyddoedd, wrth ddysgu'n wir beth yw 'cydredeg' ras ffydd gyda brodyr a chwiorydd yng Nghrist. Dros y flwyddyn ac ychydig ddiwethaf ers i mi ymuno â theulu Undeb Bedyddwyr Cymru, un o'r breintiau mwyaf bu gweld llaw Duw ar waith yn tyfu'r ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc trwy 'Esgyn', a chreu awyrgylch ble mae pobl ifanc ein heglwysi yn gallu tyfu ar y cyd gydag eraill o'r un oedran. Erbyn i chi dderbyn y rhifyn hwn i'ch llaw, bydd ail benwythnos preswyl Esgyn yng nghanolfan Summit Treharris wedi gorffen neu ar fin digwydd – clod i Dduw am bopeth mae E wedi ei wneud trwy'r fenter newydd hon!

Rydw i hefyd wedi derbyn cymaint o ddatguddiad a chyfoeth i'm bywyd o gyfeillgarwch a thystiolaeth saint hŷn: boed y rheiny'n rhieni, yn 'fodrybedd' neu'n 'ewythrod' yn y ffydd, neu'n henoed sydd yn barod i basio ymlaen trysorau doethineb maen nhw wedi eu casglu dros y blynyddoedd! Ces i fy mendithio gyda thad-cu a fu'n hanfodol yn dangos i mi yn union beth yw ystyr 'addfwynder', gwir gariad at Iesu fel y meddyg da, a diolchgarwch i'r Arglwydd. Fel y mae'r Salmydd yn ei ddweud: "Molianna'r naill genhedlaeth dy waith wrth y llall, a mynegi dy weithredoedd nerthol." (Salm 145:4). Hyfryd felly yn y rhifyn hwn o'r Negesydd yw clywed am rôl pob cenhedlaeth: o weinidogion ifanc fel Gruff a Hannah a bedyddiadau pobl ifanc (t.6-7), i dystiolaeth a rôl holl-bwysig y bobl hŷn yn ein heglwysi (t.3), i rôl y cenedlaethau a fu fel rhan o etifeddiaeth ac ewyllys Duw ar gyfer Jeff a Colleen yng Nghymru (t.4)... mae'n glir bod tapestri'r cenedlaethau yn ein plith yn un cyfoethog ac yn un llawn tystiolaeth yr Arglwydd ar waith!

Fy ngweddi wrth i ni ddarllen y rhifyn hwn o'r Negesydd yw y byddem ni'n ystyried sut mae'r Arglwydd wedi ein galw ni i ddylanwadu a bendithio cenedlaethau eraill (boed yn rhai iau neu'n hŷn na ni), tra'n cofio fel yr ydym ni wedi cael ein bendithio ein hunain gan eraill. Wrth i fi ddechrau ar gyfnod mamolaeth, rydw i'n ymwybodol y bydd llawer o ddwylo a chenedlaethau yn dod at ei gilydd i roi help i'r un bach! Rhyfeddol yw meddwl cymaint o bobl y mae'r Arglwydd wedi eu defnyddio ym mywydau pob un ohonom ni i'n siapio, ein bendithio, a'n gwneud ni pwy ydyn ni heddiw.

*Yng Nghrist,*

**Sioned Graves** (Swyddog Cenhadaeth a Chyfathrebu)

# CENHADAETH:
## *Anna-gaplaniaeth*

**Llywydd UBC Maggie Rich** (yr Adran Ddi-Gymraeg) sydd yn ein hatgoffa am rôl hanfodol pob cenhedlaeth yn yr eglwys, ac yn galw arnom i gynnwys cenedlaethau hŷn yn ein cenhadeth, trwy gyflwyno rôl a chyfle 'Anna-gaplaniaeth'...



Ychydig o flynyddoedd yn ôl, dechreuais i gasglu hanesion oddi wrth y bobl hŷn yn ein Cymanfa – straeon am dyfu i fyny yn ein capeli gwledig, straeon am fywyd capel, straeon trist, straeon llawen - straeon i gyd oedd yn dod ag atgofion yn ôl. Mae hanes capel yn cynnwys cymaint yn fwy na hanesion ei adeilad(au) a'i gweinidogion; mae hefyd yn cynnwys straeon y bobl oedd yn dod ynghyd i addoli, i gyd-weithio, ac i fod ochr yn ochr â'i gilydd trwy'r amserau da, a'r amserau anodd.

Wrth adrodd y straeon hyn, clywn am sut y bu Duw ar waith ym mywydau ei bobl a'i eglwys. Mae Duw'n dal ar waith ym mywyd pob cenhedlaeth yn ein heglwysi, ond pa mor aml ydyn ni'n cymryd yr amser i oedi a gwrando? Nifer o flynyddoedd yn ôl, pan oeddwn i'n arwain grŵp plant ac ieuenctid yn yr eglwys, des i â menyw hŷn i fod yn rhan o'r tîm arwain. Roedd hi bron yn ddall ac roedd ganddi broblemau iechyd amrywiol, ond roedd hi'n wrandäwr gwych. Fe wnaeth y plant ei "mabwysiadu" hi fel mam-gu i bawb, a hi oedd yr un fyddai'n gwrando ar eu straeon, yn cynnig cysur ac anogaeth. Hi oedd yr un oedd yn gallu adrodd straeon Beibl iddynt heb lyfrau – doedd hi ddim yn gallu gweld na darllen erbyn hyn – a hi oedd yr un oedd yn dod â'r straeon yn fyw. Roedd y rhain yn straeon y gwyddai o'i phlentyndod, a dyma'r amser iddi basio ymlaen y straeon hynny.

Roedd hi'n cofio'r adeilad enfawr blaenorol a'r organ-bîb a galeriau – roedd hi hefyd yn cofio cam-ymddygiad rhai ohonom ni oedd bellach yn arweinwyr! Mae gen i deimlad mai dyma'r straeon yr oedd y plant yn eu mwynhau fwyaf. Mae gan y bobl hŷn yn ein heglwysi lawer i gynnig. Efallai nad y pethau roedden nhw'n arfer bod yn gallu gwneud, ond mae Duw'n dal ar waith trwyddyn nhw!

Yn 2022, ces i fy nghomisiynu fel Caplan Anna, sef caplaniaeth i bobl hŷn. Mae'r rôl yn fy nghymryd i gartref gofal yn wythnosol, ble fy ngwaith yw gwrando. Wrth i bobl ymddiried, mae'r straeon yn llifo: dyw hi ddim yn anarferol clywed, "Dydw i erioed wedi rhannu hwn gyda rhywun o'r blaen."

*"Mae Duw'n dal ar waith ym mywyd pob cenhedlaeth yn ein heglwysi..."*

Byddwch chi'n clywed straeon am benderfyniadau sydd nawr dan gwestiwn: wnes i'r peth iawn? Byddwch chi'n clywed straeon am glwyfau'r gorffennol, wrth geisio cysur bod Duw yn eu caru. Mae gweddi yn lleddfu llawer o ofnau. Bydd hefyd straeon doniol, sydd yn dod â llawenydd i'r traethydd a'r gwrandäwr! Un o'r pethau sydd yn rhoi boddhâd yw dod wrth ymyl y rheini gyda dementia. Mae'r hen salmau'n dal yn ennyn ymateb, ac mae clywed rhywun yn dweud "pob bendith' gyda gwên fawr, yn dystiolaeth bod Duw'n dal ar waith ym mywyd y person. Mae'r rheiny sydd yn ôl y golwg yn meddu ar gyn lleied yn dal i gynnig gymaint.



# DYCHWELYD I **GYMRU...**

*O Sir Benfro, i'r UDA ac yn ôl eto... Mae hanes **Jeff a Colleen Richards** am sut y galwodd Duw eu teulu nôl i Gymru yn un anhygoel sy'n ymestyn dros bedair cenhedlaeth....*



Gellir olrhain dechreuadau stori Jeff a Colleen tua 150 mlynedd yn ôl i gefn gwlad Sir Benfro. Ffermwr o Sir Benfro oedd hen dad-cu Jeff, ac fel llawer o bobl eraill o'r cyfnod hwnnw, enillodd ei fywoliaeth ar y fferm deuluol.

Yn 1886, gadawodd gyda'i bedwar plentyn a'i wraig feichiog am fywyd newydd yn yr UDA. Fodd bynnag, ni adawodd y teulu eu gwreiddiau Cymreig, gan ymuno â chymunedau o Gymry Cymraeg yn Nebraska. Ond, roedd yr hyn a newidiodd yn eu bywydau yn holl-bwysig wrth osod sylfeini ar gyfer gwaith Duw ar gyfer cenedlaethau i ddod. Er iddo fod yn ddiacon o'r blaen yn eglwys Hebron, Saundersfoot, dyma fywgraffiad hen dad-cu Jeff yn disgrifio sut y gwnaeth Duw "redeg ar ei ôl" yn yr Unol Daleithiau. Cafodd brofiad radical o gael ei "eni o'r newydd" a darganfod ffydd newydd yn Iesu.

Fe wnaeth hyn ei yrru wedyn i weinidogaethu, tra'n dal i ffermio, ac ymhen amser daeth yn 'efengylydd y dalaith' ar gyfer Nebraska a De Dakota. Gallai o leiaf dwy fil o bobl fod wedi rhoi eu bywydau i Iesu trwyddo. Nid yw straeon teuluol anhygoel bob amser yn golygu y bydd eraill o gwmpas yn dilyn yr un llwybr, fodd bynnag, ac yn ôl Jeff, gwnaeth cenedlaethau diweddarach ymadael â'r ffydd. Ymunodd tad Jeff â Llynges yr UDA a "chwythu i ffwrdd yn llwyr" o'r teulu.

*"Cafodd brofiad radical o gael 'ei eni o'r newydd'."*

"Roeddwn i hefyd mor bell i ffwrdd ag y gallwch chi ei gael!" dyma Jeff yn dweud. "Doedd gen i ddim diddordeb, a doeddwn i ddim eisiau unrhyw beth i'w wneud â ffydd."

Priododd Jeff â Colleen yn 1982, ac ymunodd hi ag ef yn Montana. Roedd gan Jeff waith da yn gweithio fel peiriannydd mecanyddol, a dechreuon nhw dyfu eu teulu. Fodd bynnag, disgrifia Colleen "nad rhosod oedd y cyfan". Roedd hi'n anodd iddi fel rhywun oedd wedi dod i ffydd yn ei harddegau, tra nad oedd gan ei gŵr ddiddordeb o gwbl. Fodd bynnag, daeth ffrind coleg i Colleen a oedd yn efengylydd i aros, a dechreuodd ei ymwneud â Jeff feddalu ei galon.

Daeth y newid go iawn pan rannodd y ffrind hwn rywbeth yr oedd Jeff yn gwybod mai ond Duw (ac ef ei hun!) a allai fyth wybod amdano. "Roedd hi fel petai'r dyn wedi cael gair o wybodaeth nad oedd modd iddo wybod ar ei ben ei hun - roedd fel hi fel petai Duw yn rhoi gwybod imi yn dyner Ei fod yn fy ngweld ac yn fy adnabod."

*"Roedd...Duw yn rhoi gwybod yn dyner... Ei fod yn fy adnabod"*

Un noson, roedd Jeff mewn cyfarfod dan arweiniad yr efengylydd ac fe weddïodd: "Duw, os wyt ti'n real, bydda i'n credu ynot ti." Y foment honno, cafodd gyfarfyddiad pwerus â phresenoldeb Duw. Disgrifiodd grym y profiad fel petai 'rhywun wedi ei daro yng nghefn y pen'. Mewn dagrau, clywodd lais Duw yn ei alw i fywyd newydd. Fe wnaeth hyn nodi dechrau tymor newydd yn ei fywyd, ac fel ei hen daid, galwyd Jeff ymhen amser i'r weinidogaeth.

Teimlodd Jeff a Colleen alwad Duw i weinidogaethu mewn eglwys yn Montana lle gwelson nhw Dduw yn symud yn rymus ac yn iacháu bywydau. Fodd bynnag, yn ystod y cyfnod hwn cawsant eu hatgoffa hefyd am sut roedd y

ddau wedi teimlo galwad i genhadaeth. Un flwyddyn yn ddiweddar pan deimlodd y ddau bod Duw yn eu galw i ddod â'u hamser fel bugeiliaid yn yr eglwys leol i ben, aethant i gynhadledd eu henwad, lle daeth tri pherson i fyny - yn annibynnol i'w gilydd - a gofyn 'ydych chi wedi clywed am beth mae Duw yn ei wneud yng Nghymru?'.

Fe wnaeth hyn sbarduno rhywbeth ynddynt, a'u harwain i ail-ddarganfod hanes hen daid Jeff a ddaeth o Gymru. Wrth geisio, a gweddïo, teimlant yn gynyddol bod Duw yn eu galw nhw i ddod i Gymru. Ymhen amser, fe wnaethant gysylltiad â theulu UBC, a oedd hefyd yn cydnabod galwad Duw ar eu bywydau i ddod i weinidogaethu yma.

Cyrhaeddodd Jeff a Colleen Sir Benfro eleni, 138 o flynyddoedd ar ôl i'w hen dad-cu adael, gan wybod bod Duw wedi eu galw yn ôl i'r wlad hon i'w geisio ar gyfer iachâd ac adnewyddiad i'w bobl yng Nghymru.

"Rydym ni yn bersonol yn teimlo fel pobl mor annhebygol," meddai Colleen. "Ac rydyn ni'n gwybod mai dyna sut mae'r Cymry wedi teimlo drwy hanes. Ond rydyn ni wir yn teimlo bod Duw yn gweld ac yn adnabod y Cymry mor dda, ac mae ganddo gynllun hardd ar gyfer sut mae e am weithio trwy Ei bobl yn y wlad hon." Ar hyn o bryd, mae Jeff a Colleen yn yn gwasanaethu yn Eglwys Bedyddwyr Bethel yn Noc Penfro, ac yn gyffrous am y dyfodol wrth iddynt geisio camau nesaf Duw ar eu cyfer...!




# GOBAITH AR GRWYDR

*Ym mis Hydref, cwblhawyd her **CERDDED! Cymru & Zimbabwe**. Bwriad yr her i gerdded 750+ o filltiroedd oedd i godi arian ar gyfer apêl Talentau Gobaith (tud. 8) Dyma hanes **Llinos Penfold**, un o'n cerddwyr brwd...*



**Llinos Penfold ydw i.** Rydw i'n aelod yn Eglwys Bethel, Mynachlog-ddu, a bellach yn gweithio fel Cydlynydd y Gorfforaeth i UBC. Pan ddaeth y cyfle i gyfrannu at y nod o gerdded hyd Cymru a Zimbabwe ar gyfer apêl Cymorth Cristnogol eleni, sef cyfanswm o 750+ o filltiroedd, roeddwn i'n awyddus i gymryd rhan, ac yn medru cyfrannu 100 o filltiroedd tuag at y targed.

Mae **cerdded wedi chwarae rhan bwysig** yn fy mywyd ers blynyddoedd, ers i ni gael ci bach newydd bywiog yn 2015 o'r enw Caio! Does dim dwywaith nad yw cerdded yn llesol er mwyn gwella'ch iechyd corfforol. Cred meddygon bod cerdded yn rheolaidd yn gallu eich helpu i wrthsefyll clefyd y galon, strôc, clefyd siwgr, llid y cymalau... mae'r rhestr yn ddiddiwedd! Ond beth am yr effaith ar eich iechyd meddwl? Yn fy mhrofiad i gall mynd am dro yn yr awyr iach newid cwrs eich diwrnod yn llwyr. Weithiau os ydw i'n teimlo'n isel mae hanner awr tu fas yn gwella fy hwyliau, yn gwneud i'r cymylau duon godi ac yn fodd o roi pob gofid mewn cyd-destun. Rhywbeth nad oes digon o sôn amdano yn y Gymru gyfoes yw ein **iechyd ysbrydol**. Pryd ydyn ni'n cael cyfle i fyfyrio, i weddïo, i ddiolch? Rydyn ni mor brysur yn ceisio cyflawni ein dyletswyddau, ydyn ni wedi anghofio sut mae diwallu'n heneidiau?

Eto, wrth fynd am dro dyma **gyfle gwych i siarad gyda Duw.** Yn aml pan fydda i'n cerdded Llwybr yr Arfordir fe fydda i'n ceisio cofio'r Salmau, geiriau emynau neu farddoniaeth sy'n dal yn y cof ers dyddiau ieuenctid.

'Ym mhle bues i'n cerdded eleni?' rwy'n eich clywed chi'n gofyn. Mae'n ddrwg gyda fi eich siomi ond roedd y rhan fwyaf o'r teithiau eleni o gwmpas fy nghartref ym Mynachlog-ddu! Teithiau byr ar y ffordd a rhai hirach. Fe dreulies i a'r gŵr wythnos yn cerdded arfordir Sir Fôn hefyd ym mis Awst, ac fe wnes i ail gerdded rhannau o arfordir Sir Benfro - y daith o Marloes i Dale, o gwmpas traeth Barafundle ac o Borthgain i Abereiddy. Da iawn bawb sydd wedi cyfrannu milltir neu ddwy tuag at her CERDDED! Cymru a Zimbabwe. Gobeithio bydd yr arfer yn parhau a byddwch yn dod yn gerddwyr cyson!

***Os nad ydych chi wedi cael cyfle i gefnogi'r apêl, cofiwch fod dal cyfle i gyfrannu a chefnogi cerddwyr fel Llinos cyn diwedd Rhagfyr 2024.***

*(mwy o wybodaeth ar www.ubc.cymru)*

# NEWYDDION ar draws

UBC
BUW

## Gweinidogion a Staff Newydd

Gyda llawenydd mawr y cafodd dau o gyn-aelodau Tîm y Cymru (rhaglen blwyddyn gap UBC) eu sefydlu a'u hordeinio fel gweinidogion ym mis Hydref eleni! Cafodd **Gruffudd Jenkins** (isod, dde) ei groesawu mewn oedfa yn Eglwys Maescanner, Dafen ar y 5ed o Hydref, tra cafodd **Hannah Smethurst** (isod, chwith) ei sefydlu ar y 12fed o Hydref yng Nghaersalem, Caernarfon. Croeso hefyd i'r Parch. **Richard Miles** i Eglwys Bedyddwyr Llanwenarth. Croesawyd **Llinos Penfold i staff UBC** ym mis Gorffennaf, a rhoddwyd ffarwél i **Sioned Graves** ym mis Hydref wrth iddi fynd ar gyfnod mamolaeth.






## Bywyd Newydd: Bedyddiadau!

Gwnaed galwad ym mis Hydref yn gofyn a oedd bedyddiadau wedi bod yn digwydd ar draws ein heglwysi yn ddiweddar... cafwyd ymateb gwych, gyda **nifer yn adrodd am bobl ifanc yn cael eu bedyddio** yn ddiweddar! Clywsom yn gyntaf gan eglwys Deer Park , Dinbych-y-Pysgod, ble cafodd dwy eu bedyddio dros fis Awst a mis Medi. Ym mis Awst, bedyddiwyd Jeany a ddaeth i ffydd newydd ar ôl archwilio'r ffydd Gristnogol gydag arweinwyr yr eglwys. Ar yr un pryd, roedd Duw ar waith yng nghalon Bunty oedd wedi dechrau dod i'r eglwys ers blwyddyn a hanner. Sylweddodd ei *(parh...)*

## Dechrau Gwaith "Rhwyd y Brenin" yn Hwlffordd



Mae sefyllfa'r **dystiolaeth Gristnogol Gymraeg yn Sir Benfro** wedi bod yn fater o gonsyrn i nifer dros y blynyddoedd diwethaf. Dros y flwyddyn ddiwethaf bu rhai yn teimlo galwad i sefydlu gwaith newydd yn Hwlffordd er mwyn cyrraedd dalgylch Ysgol Caer Elen, gyda'r weledigaeth o gyrraedd dysgwyr Cymraeg, teuluoedd a phobl ifanc. Y canlyniad bellach yw dechrau oedfa Gymraeg, gan ddechrau yn fisol yn Hwlffordd ar brynhawn Sul cyntaf y mis.

Mae'r saith sy'n rhannu'r weledigaeth, gan gynnwys Llywydd UBC Geraint Morse, wedi bod yn cyfarfod yn fisol i weddïo ac i drefnu ar gyfer y prosiect cenhadol hwn. Enw'r prosiect yw "Rhwyd y Brenin", a'r weledigaeth yw rhannu'r newyddion da am Iesu Grist yn Hwlffordd a de Sir Benfro yn yr iaith Gymraeg.

Ar y 6ed o Hydref, fe wnaeth criw arweinwyr Rhwyd y Brenin gyfarfod i weddïo cyn croesawu'r ymwelwyr cyntaf i'r oedfa agoriadol. Daeth 30 i'r oedfa, 8 plentyn a 22 oedolyn. Cawsant oedfa hyfryd ar y thema "Diolchgarwch". Medd Geraint: "Mae'n dyled yn fawr i staff Undeb Bedyddwyr Cymru am arweiniad a chefnogaeth, ac i eglwys Emmanuel Merlins Bridge am bob cefnogaeth wrth agor drysau'r capel i'n croesawu. Byddwn yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth mewn gweddi, ac os ydych yn rhydd ar brynhawn Sul cyntaf y mis, ac yn dymuno galw mewn, mae croeso mawr yn eich disgwyl!" *Am fwy o fanylion, cysylltwch â'r Parch. Geraint Morse ar 07805 617555*

# Cloi Apêl Talentau Gobaith

Ym mis Medi 2023, lansiwyd apêl Talentau Gobaith, apêl UBC ar y cyd gyda Cymorth Cristnogol. Nod yr apêl oedd i gefnogi **cymunedau yn Zimbabwe** sydd ar reng flaen y frwydr yn erbyn Newid Hinsawdd, trwy hyfforddi ffermwyr mewn dulliau ffermio a masnachol 'hinsawdd-glyfar'. Cafodd tîm UBC y cyfle i glywed gan dîm Cymorth Cristnogol yn ddiweddar Zimbabwe fel mae'r gwaith wedi **gweld llwyddiant** gwych ymhlith ffermwyr - hyd yn oed yng nghanol sychder gwael yn y rhanbarth.

Erbyn mis Hydref (adeg ysgrifennu), codwyd **£15,645.86** tuag at yr apêl. Gwelwyd ymdrechion creadigol i godi arian, gan gynnwys her CERDDED! Cymru & Zimbabwe - ymgais i deulu'r Bedyddwyr gyd-gerdded hyd y ddwy wlad, sef c.750 o filltiroedd. Ym mis Hydref, pasiwyd y targed, gyda **1035.35 o filltiroedd** wedi'u cofnodi! Yn ogystal ag unigolion fel Llinos (t.5), braf oedd gweld eglwysi yn dod at ei gilydd i gymryd rhan yn y cerdded, gan gynnwys capeli Penygroes, Mount Pleasant, cylch Carn Ingli, Ebeneser Dyfed, Sarn Drenewydd, ac eraill. Diolch i bawb a fu'n cynnal oedfaon, ac yn codi arian mewn ffyrdd eraill. Mae dal cyfle i gyfrannu **cyn diwedd yr apêl** ym mis Rhagfyr. *Mwy o wybodaeth: ubc.cymru*



*(parhâd 'Bedyddiadau')* bod hi hefyd am gael ei bedyddio, a chafodd ei bedyddio ar y 1af o Fedi yn harbwr Dinbych y Pysgod! Ym mis Medi, bedyddiwyd **sawl person ifanc** ar draws ein heglwysi. Yng Nghaerdydd, bedyddiwyd Aled - dyn ifanc a ymunodd â Tabernacl Caerdydd yn diweddar. Yng Ngharmel Pontlliw, cafodd Harrison ei fedyddio gan ei weinidog Parchg. H. Vincent Watkins ar y 15fed o Fedi. Yng nghapel Pencarneddi Star, cafwyd hefyd lawenydd mawr wrth i 5 o bobl ifanc gyffesu eu ffydd Gristnogol a chael eu bedyddio yn y capel ar yr 22ain o Fedi. Roedd hyn yn achlysur o lawenydd gan mai'r tro cyntaf oedd hyn i'r capel weld bedyddiadau ers 1990. Clod i Dduw am iddo barhau i weithio mewn calonnau ar draws ein gwlad!

# NEWYDDION ar draws y *byd*

## "Newid Cyfnod" EBF

***Judith Morris** sydd yn adrodd nôl o'i phrofiad yn ymuno â Bedyddwyr ar draws Ewrop yng Nghynhadledd Ffederasiwn Bedyddwyr Ewrop (EBF) ym mis Medi eleni...*

Hyfrydwch oedd cael bod yn bresennol yng nghynhadledd Ffederasiwn Bedyddwyr Ewrop a gynhaliwyd eleni yn Budapest. Cawsom groeso arbennig gan Undeb Bedyddwyr Hwngari, sy'n cynnwys tua 300 o eglwysi gyda 20,000-25,000 o aelodau yn addoli bob Sul. Mae'r Ffederasiwn yn cynnwys Bedyddwyr o'r Dwyrain Canol a Chanolbarth Asia yn ogystal ag Ewrop. Roedd cynrychiolaeth gref yn bresennol a phawb mewn hwyliau da ond yn naturiol roedd **y rhyfeloedd yn Syria, Wcráin a Rwsia** wedi taflu cysgod dros y gynhadledd, ynghyd â'r glanhau ethnig yn Nagorno Karabakh a'r datblygiadau trist yn y Dwyrain Canol. Parhawn i weddïo dros y gwledydd hyn ynghyd â'r sawl sydd yn cynnig cymorth dyngarol. Roedd y



gynhadledd yn gymysg o gyfarfodydd a gweithdai amrywiol ac roedd hi'n dda gweld **arweinwyr ifainc** yn bresennol a chlywed am ymdrechion pwrpasol i gyrraedd cenhedlaeth newydd â'r Efengyl. Yn ogystal, cawsom ein herio i fuddsoddi mewn gwaith plant a phobl ifainc.

Thema'r gynhadledd oedd 'Newid Cyfnod', ac yn sicr dyma thema sy'n berthnasol i Fedyddwyr ar draws Ewrop a thu hwnt. Mae seciwlariaeth a pholareiddio gwleidyddol yn destun gofid i sawl gwlad. Er yr holl newidiadau, cawsom ein hatgoffa droeon bod ein ffocws ar **yr Un sydd yn ddigyfnewid**, ein Harglwydd Iesu, a bod yn rhaid i ninnau ddilyn ei esiampl gan gofio y modd y gwacaodd ei hun er ein mwyn.

# *Dod i nabod...* Gwyn Morgan



Yn y rhifyn hwn o 'Dod i Adnabod', clywn stori a myfyrdodau **Gwyn Morgan** am ei daith bywyd a ffydd. Yn adnabyddus fel awdur i blant, mae hefyd yn rhan o deulu'r Bedyddwyr yn ardal Penderyn...

**Diolch am rannu eich hanes gyda ni, Gwyn! Allech chi rannu ychydig gyda ni am eich taith bywyd a ffydd?**

Ces i fy ngeni a'm magu yn Nhrecynon, Aberdâr. Bûm yn selog yn Eglwys Fedyddiedig Noddfa, Trecynon. Ces i fy addysg yn Ysgol Gymraeg Ynyslwyd, Aberdâr ac Ysgol Gyfun Rhydfelen. Es i Goleg y Drindod, Caerfyrddin a llwyddais i gael tystysgrif athro. Bues i wedyn yn athro yn Ysgolion Cynradd Gilfach Fargoed; Ynyswen, y Rhondda Fawr ac yn Ysgol Gymraeg Ynyslwyd. Dw i'n awdur i blant a dw i wedi cyhoeddi sawl cyfrol o farddoniaeth.

Ces i fagwraeth hynod wrth fod yn unig blentyn ac yn gannwyll llygad i fy rhieni. Dioddefodd fy nhad yn arw o glefyd y llwch a dylanwadodd hwnnw arna i'n fawr. Sylweddolais i bryd hynny bod bywyd yn fregus a byr.

Mireiniodd fy ffrindiau oedd yn anffyddwyr fy nghred i'r dim. Dw i'n hynod ddiolchgar iddyn nhw! Felly **bu Cristnogaeth yn ganolog i fy mywyd ers hynny**. Roedd hi'n gyfle imi ddyfnhau fy mhrofiad o gariad tragwyddol Duw tuag ataf a thuag at bawb. Daw geiriau efelychiad Ieuan Glan Geirionydd yn fyw ataf yn ei emyn 'Ar lan Iorddonen Ddofn'...

*Paham yr ofnaf mwy / Y Duw a'i daliodd hwy / A'm harwain innau drwy / Ei dyfroedd dyfnion*

Mae nifer o gapeli Cymraeg eu hiaith wedi dod at ei gilydd yn Hirwaun a Phenderyn i addoli ddwywaith y mis. Dw i'n cael bendith mawr o'r gymdeithas honno. Ry'n ni'n weithgar yn y gymuned gyda codi sbwriel, y banc bwyd a threfnu nosweithiau llawen.

**Beth yw'r gwersi pwysicaf yr ydych chi'n teimlo i chi ddysgu dros eich bywyd a'ch taith ffydd?**

Mae ergyd y damhegion a gwirioneddau'r gair yn crisialu dyfnder fy mhrofiad o fod yn rhan o gymdeithas. Mae **cariad Duw yn ein dwysbigo i weithredu ar ei ran**. Dw i'n ei chael hi'n anodd i gredu yng Nghrist y brenin yn dod ar gymylau, ond credaf yn rhwyddach yng Nghrist y brawd, y cyd bererin – mae hwnnw'n real i mi. Mae'n uniaethu â ni yn ein gwendidau.

Mae'n rhaid i'r Gair wneud synnwyr ymarferol imi o sut i faddau ein gilydd, sut i nabod Duw drwy Grist, dyma gydnabod y Crist sydd ynom ac yn eraill. Credaf **nad rhywbeth yn hanes** yn unig yw'r ysgrythur ond mae Duw yn ei ddatguddio ei hun heddiw.

Fel un sy'n dwli ar hiwmor Monty Python, Y Brodyr Marx, Spike Milligan, y Goons ac ati ac sy'n cael llawer o bleser wrth wrando ar Jazz – maen nhw'n ymestyn ffiniau cred i mi i glymu grymysterau gwahanol iawn i'w gilydd mewn undod. Dyma'r ysbryd sy'n sibrwd bod tangnefedd a direidi Duw ynom o hyd.

**Wrth edrych i'r dyfodol, beth yw eich gweddi ar gyfer Aberdâr, ac ar gyfer Cymru?**

Fy ngweddi yw i hedyn y Gair egino yng nghalonnau a meddwl y ddynoliaeth a'r chwaeroliaeth ac i hwnnw ddwyn ffrwyth cyfiawnder, tangnefedd, goleuni, addfwynder, parch at eraill, cyfeillgarwch mynwesol, tosturi ac ysbryd o faddeuant – neu mewn geiriau eraill, Crist ynom.

***Diolch, Gwyn!***

**Cysylltwch â ni!**
0345 222 1514
post@ubc.cymru
Y Llwyfan, Heol y Coleg, Caerfyrddin, SA31 3EQ